

CYFARWYDDIADAU

Deialog tudalen 135

1. Gweithgaredd cyfieithu

(tudalen dwyieithog)

Dylai fod copi i bob pâr o dysgwyr. Plygwch y sgwrs ar y llinell. Y dysgwyr i edrych ar un iaith a cheisio dweud beth ydy o yn yr iaith arall. Mae hi wastad yn well dechrau efo Cymraeg i Saesneg (sy'n hawdd), yna Saesneg i Gymraeg

2. Gweithgaredd cyfieithu a rhoi mewn trefn

Argraffwch y tudalennau gefn wrth gefn. Torrwch y ddeialog mewn sribedi, gan ddefnyddio'r llinellau ar yr ochr Gymraeg.

Mae'n bosib gwneud y gweithgaredd fel dosbarth neu mewn parau, felly dewiswch sawl copi sydd angen eu hargraffu.

Rhowch y llinellau (ochr Gymraeg i fyny) ar wasgar ar fwrdd. Yna, mae'r dysgwyr yn eu rhoi mewn trefn. Dilyniant naturiol i hwn yw i'r dysgwyr geisio cyfieithu'r llinellau un wrth un, gan eu troi rownd unwaith maen nhw'n sicr o'r ystyr. Bydd y goreuon yn mynd syth i gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg fel cam nesaf.

Derbynnydd:	Bore da, ga i helpu?	<i>Good morning, can I help?</i>
Chris:	Ga i siarad efo'r bôs?	<i>Can I speak with the boss?</i>
Derbynnydd:	Dydy o ddim yma heddiw. Mae o ar wyliau yn y Bahamas.	<i>He's not here today. He's on holiday in the Bahamas.</i>
Chris:	Pryd fydd o'n ôl?	<i>When will he be back?</i>
Derbynnydd:	Fydd o ddim yn ôl tan wythnos i ddydd Mawrth.	<i>He won't be back until a week Tuesday.</i>
Chris:	Ga i adael neges?	<i>Can I leave a message?</i>
Derbynnydd:	Cewch, wrth gwrs.	<i>Yes, of course.</i>
Chris:	Chris Ellis dw i. Dw i'n gweithio yn swyddfa Abercastell. Ar ôl y storm ddoe, mae'r trydan wedi torri yn y swyddfa ac mae hi'n oer iawn yma.	<i>I'm Chris Ellis. I work in the Abercastell office. After the storm yesterday, the electricity is broken in the office and it's very cold.</i>
Derbynnydd:	O diar, mae'n ddrwg gen i glywed. Ac ydy, mae'r tywydd yn oeri. Fydd hi'n bosib i chi ebostio'r bôs? Mi fydd o'n medru darllen yr ebost yn y gwesty.	<i>Oh dear, I'm sorry to hear (that). And yes, the weather is getting cold. Will it be possible for you to e-mail the boss? He'll be able to read the e-mail in the hotel.</i>
Chris:	Fydd hi ddim yn bosib ebostio achos mae'r trydan wedi torri.	<i>It won't be possible to e-mail because the electricity is broken.</i>
Derbynnydd:	O, ia.	<i>Oh, yes.</i>
Chris:	A dw i ddim yn meddwl bydd y bôs yn y Bahamas yn poeni am y trydan yn swyddfa Abercastell. Ond diolch am eich help chi.	<i>And I don't think the boss in the Bahamas will worry about the electricity in the Abercastell office. But thanks for your help.</i>
Derbynnydd:	Croeso! Unrhyw bryd!	<i>Welcome! Any time!</i>

Derbynnydd:	Bore da, ga i helpu?
Chris:	Ga i siarad efo'r bôs?
Derbynnydd:	Dydy o ddim yma heddiw. Mae o ar wyliau yn y Bahamas.
Chris:	Pryd fydd o'n ôl?
Derbynnydd:	Fydd o ddim yn ôl tan wythnos i ddydd Mawrth.
Chris:	Ga i adael neges?
Derbynnydd:	Cewch, wrth gwrs.
Chris:	Chris Ellis dw i. Dw i'n gweithio yn swyddfa Abercastell.
	Ar ôl y storm ddoe, mae'r trydan wedi torri yn y swyddfa ac mae hi'n oer iawn yma

Good morning, can I help?

Can I speak with the boss?

He's not here today.

He's on holiday in the Bahamas.

When will he be back?

He won't be back

until a week Tuesday.

Can I leave a message?

Yes, of course.

I'm Chris Ellis.

I work

in the Abercastell office.

After the storm yesterday,

the electricity is broken

in the office

and it's very cold.

Derbynnydd:	O diar, mae'n ddrwg gen i glywed. Ac ydy, mae'r tywydd yn oeri. Fydd hi'n bosib i chi ebostio'r bôs? Mi fydd o'n medru darllen yr ebost yn y gwesty.
Chris:	Fydd hi ddim yn bosib ebostio achos mae'r trydan wedi torri.
Derbynnydd:	O, ia.
Chris:	A dw i ddim yn meddwl bydd y bôs yn y Bahamas yn poeni am y trydan yn swyddfa Abercastell. Ond diolch am eich help chi.
Derbynnydd:	Croeso! Unrhyw bryd!

Oh dear,

I'm sorry to hear (that).

And yes, the weather is getting cold.

Will it be possible for you to e-mail the boss?

He'll be able

to read the e-mail in the hotel.

It won't be possible to e-mail because the electricity is broken.

Oh, yes.

And I don't think

the boss in the Bahamas

will worry about the electricity

in the Abercastell office.

But thanks for your help.

Welcome! Any time!